



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX** ar **DYDD MERCHER, 4YDD MAWRTH, 2020** am **5.00 PM**.

AGENDA

Tudalennau

**11.1. < DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG SYDD WEDI'I
AMLINELLU YN EITEM 11A**

3 - 10

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu

At: Pob Aelod o'r Cyngor

This page intentionally blank

CYFARFOD Y CYNGOR 4 MAWRTH 2020

DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL SYDD WEDI'I NODI YN EITEM 11A O AGENDA'R CYNGOR

Yn unol â Rheol Weithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, H.Fychan, E.Griffiths, K.Morgan, J.Williams, A.Cox, J.Davies, J.Cullwick, A.Chapman, S.Evans, E.Webster, L.Jones, E, Stephens, M.Weaver, S.Rees Owen, D,Grehan,

Dros y degawd diwethaf, mae'r Llywodraeth Geidwadol wedi cael gwared ar 20,000 o swyddogion yr heddlu, gan olygu bod llai o swyddogion i'w gweld ar ein strydoedd. Mae hyn yn cyd-daro â chynnydd yn nifer yr achosion o droseddau sydd ddim yn digwydd mor aml, ond sy'n peri mwy o niwed, er enghraifft troseddau sy'n gysylltiedig â chyllyll a dynladdiad. Mae'r toriadau hyn hefyd wedi arwain at ddigalonni ymhlith heddluoedd ac wedi cael effaith andwyol ar eu hamodau gwaith, gan fod swyddogion wedi'u gwthio i'r eithaf.

Yn ystod y misoedd cyn yr Etholiad Cyffredinol diweddar, ymrwymodd y Prif Weinidog, Boris Johnson, i benodi "20,000 o heddweision newydd" a fydd yn cael eu "rhoi ar strydoedd y wlad hon." Mae'r Llywodraeth hefyd wedi dweud y bydd yr holl swyddogion sy'n cael eu penodi'n rhan o'r ymgyrch yma'n ychwanegol at y rhai sy'n cael eu cyflogi i lenwi swyddi gwag cyfredol, a byddan nhw hefyd ar ben y niferoedd sy'n cael eu recriwtio trwy'r cynnydd yng nghyllid yr Heddlu ar gyfer 2019/20.

Fodd bynnag, yn ôl Cadeirydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, bydd y targedau penodi yma'n gofyn am hyd at 500,000 o ymgeiswyr dros y tair blynedd nesaf, gyda hyd at 50,000 yn cael eu cyflogi i wneud iawn am nifer y swyddogion sy'n ymddeol neu'n gadael yn gynnar bob blwyddyn.

Yn ardal Heddlu De Cymru, mae'r polisïau cyni roddodd y Llywodraeth Geidwadol ar waith wedi arwain at ostyngiad net o 113 swyddog o'r Heddlu. Mae'r Cyngor hwn eisoes wedi cefnogi Cynnig yn galw am ariannu plismona rheng flaen mewn modd priodol, yn ogystal ag adolygiad o'r fformiwla ariannu. O dan gynlluniau recriwtio Llywodraeth y DU, gallai Heddlu De Cymru weld adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer recriwtio staff, ac mae'n hanfodol bod mwyafrif llethol yr adnoddau ychwanegol yn canolbwyntio ar blismona cymunedol a chadw strydoedd ledled ein cymunedau yn ddiogel.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

{Ychwanegu: Nodi'r datganiad yn adroddiad Cyllideb Comisiynydd Heddlu De Cymru i Banel Heddlu a Throsedd De Cymru ar 30 Ionawr 2020, pan gafodd lefel y cynnydd ym Mhresept yr Heddlu ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Panel.

Mae'r datganiad yn nodi bod "y strategaeth gyllidebol arfaethedig yn adlewyrchu sefydlu 200 o swyddi PCSO Cyfwerth ag Amser Llawn, a ariennir o gyllideb Heddlu De Cymru sy'n ategu'r 206 o swyddi PCSO a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan

arwain at 406 PCSO ar draws ardal yr heddlu neu 100 PCSO fesul Uned Gorchymyn Sylfaenol (BCU), sy'n sicrhau bod Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn rhan o'n cymunedau trwy waith Plismona Cymdogaeth."}

{Dileu: ~~• Bydd Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i holi faint o'r Swyddogion a benodwyd a gaiff eu dyrannu i blismona yn y gymuned.~~}

{Ychwanegu: Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu ymhellach y bydd Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd De Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, sy'n gyfrifol am faterion gweithredol, er mwyn cadarnhau bod y manylion hynny a nodir yn adroddiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'u mabwysiadu fel bod modd cyflwyno plismona cymunedol effeithiol yn ardal CBS Rhondda Cynon Taf}.

Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:

Dros y degawd diwethaf, mae'r Llywodraeth Geidwadol wedi cael gwared ar 20,000 o swyddogion yr heddlu, gan olygu bod llai o swyddogion i'w gweld ar ein strydoedd. Mae hyn yn cyd-daro â chynnydd yn nifer yr achosion o droseddau sydd ddim yn digwydd mor aml, ond sy'n peri mwy o niwed, er enghraifft troseddau sy'n gysylltiedig â chyllyll a dynladdiad. Mae'r toriadau hyn hefyd wedi arwain at ddigalonni ymhlith heddluoedd ac wedi cael effaith andwyol ar eu hamodau gwaith, gan fod swyddogion wedi'u gwthio i'r eithaf.

Yn ystod y misoedd cyn yr Etholiad Cyffredinol diweddar, ymrwymodd y Prif Weinidog, Boris Johnson, i benodi "20,000 o heddwision newydd" a fydd yn cael eu "rhoi ar strydoedd y wlad hon." Mae'r Llywodraeth hefyd wedi dweud y bydd yr holl swyddogion sy'n cael eu penodi'n rhan o'r ymgyrch yma'n ychwanegol at y rhai sy'n cael eu cyflogi i lenwi swyddi gwag cyfredol, a byddan nhw hefyd ar ben y niferoedd sy'n cael eu recriwtio trwy'r cynnydd yng nghyllid yr Heddlu ar gyfer 2019/20.

Fodd bynnag, yn ôl Cadeirydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, bydd y targedau penodi yma'n gofyn am hyd at 500,000 o ymgeiswyr dros y tair blynedd nesaf, gyda hyd at 50,000 yn cael eu cyflogi i wneud iawn am nifer y swyddogion sy'n ymddeol neu'n gadael yn gynnar bob blwyddyn.

Yn ardal Heddlu De Cymru, mae'r polisïau cyni roddodd y Llywodraeth Geidwadol ar waith wedi arwain at ostyngiad net o 113 swyddog o'r Heddlu. Mae'r Cyngor hwn eisoes wedi cefnogi Cynnig yn galw am ariannu plismona rheng flaen mewn modd priodol, yn ogystal ag adolygiad o'r fformiwla ariannu. O dan gynlluniau recriwtio Llywodraeth y DU, gallai Heddlu De Cymru weld adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer recriwtio staff, ac mae'n hanfodol bod mwyafrif llethol yr adnoddau ychwanegol yn canolbwyntio ar blismona cymunedol a chadw strydoedd ledled ein cymunedau yn ddiogel.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Nodi'r datganiad yn adroddiad Cyllideb Comisiynydd Heddlu De Cymru i Banel Heddlu a Throsedd De Cymru ar 30 Ionawr 2020, pan gafodd lefel y cynnydd ym Mhresept yr Heddlu ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Panel.

Mae'r datganiad yn nodi bod "y strategaeth gyllidebol arfaethedig yn adlewyrchu sefydlu 200 o swyddi PCSO Cyfwerth ag Amser Llawn, a ariennir o gyllideb Heddlu De Cymru sy'n ategu'r 206 o swyddi CPSO a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan arwain at 406 PCSO ar draws ardal yr heddlu neu 100 PCSO fesul Uned Gorchymyn Sylfaenol (BCU), sy'n sicrhau bod Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn rhan o'n cymunedau trwy waith Plismona Cymdogaeth."

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu ymhellach y bydd Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd De Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, sy'n gyfrifol am faterion gweithredol, er mwyn cadarnhau bod y manylion hynny a nodir yn adroddiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'u mabwysiadu fel bod modd cyflwyno plismona cymunedol effeithiol yn ardal CBS Rhondda Cynon Taf.

This page intentionally blank

CYFARFOD Y CYNGOR 4 MAWRTH 2020

DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL SYDD WEDI'I NODI YN EITEM 11B O AGENDA'R CYNGOR

Yn unol â Rheol Weithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, H.Fychan, E.Griffiths, K.Morgan, J.Williams, A.Cox, J.Davies, J.Cullwick, A.Chapman, S.Evans, E.Webster, L.Jones, E. Stephens, M.Weaver, S.Rees Owen, D.Grehan,

Gyda'r dinistr diweddar i'n cymunedau a ddaeth yn sgil Storm Dennis dros y penwythnos, mae'r difrod a achoswyd gan y llifogydd, na welwyd ei fath o'r blaen, wedi effeithio'n sylweddol ar fywydau llawer o'n preswylwyr a'n busnesau.

Mae mesuryddion lefel afon yn dangos bod pob un o'n hafonydd wedi cyrraedd y lefelau uchaf a gofnodwyd, gydag Afon Taf yn torri record 40 mlynedd wrth gyrraedd 5.2m. {Ychwanegu: ac, ar ben hynny, cafodd y ffosydd eu gorlenwi a methodd y gorsafoedd pwmpio}. Ar ben hyn, profodd rhai cymunedau yn rhannau mwyaf gogleddol y sir werth mis o law mewn dim ond 24 awr.

Mae staff y Cyngor {Ychwanegu:, sydd wedi'u gorymestyn}, contractwyr, gwasanaethau brys, {Ychwanegu: cymunedau a gwirfoddolwyr,} a sefydliadau eraill wedi gweithio'n ddiflino ers y penwythnos er mwyn ymateb i'r llifogydd a'r gwaith glanhau dilynol. Er nad yw maint llawn y difrod wedi'i gadarnhau eto, mae'n amlwg y bydd angen symiau sylweddol o arian i atgyweirio'r difrod i gartrefi, busnesau, adeiladau'r Cyngor ac isadeiledd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd rhwng £5 miliwn a £10 miliwn ar gael i gefnogi preswylwyr a busnesau sydd wedi dioddef llifogydd mewnol, ac mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu ei Gronfa Caledi Storm Dennis ei hun - gan ddangos ymrwymiad clir i gefnogi preswylwyr a busnesau ledled y Sir a thu hwnt.

Er gwaethaf hyn, mae'r diffyg cefnogaeth gan Lywodraeth y DU yn amlwg, ac mae hyn eisoes wedi'i gondemnio'n gyhoeddus gan lawer o bobl. Ni chafodd unrhyw gyfarfod COBRA ei alw er gwaethaf y llifogydd a'r difrod eang a welwyd ledled Cymru a rhannau helaeth o Loegr yn dilyn dau benwythnos o dywydd garw yn olynol.

Felly, mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Diystyriad Llywodraeth y DU o gymunedau ledled Cymru a Lloegr yn dilyn rhywfaint o'r tywydd gwaethaf yn hanes diweddar.
- Diffyg cefnogaeth o unrhyw fath gan Lywodraeth y DU i helpu cymunedau, busnesau, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru wrth ymateb i'r llifogydd.
- Ymrwymiad staff y Cyngor, {Ychwanegu: sydd wedi'u gorymestyn,} gwasanaethau brys, {Ychwanegu: cymunedau, gwirfoddolwyr,} contractwyr, sefydliadau partner ac

awdurdodau cyfagos i ddarparu cymorth a chefnogaeth i'r rheiny a gafodd eu heffeithio.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- **{Dileu: Bydd} {Ychwanegu: Bod}** Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn pa gymorth y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei gynnig ar gyfer y gwaith adfer ac atgyweirio sydd ar y gweill.

Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:

Gyda'r dinistr diweddar i'n cymunedau a ddaeth yn sgil Storm Dennis dros y penwythnos, mae'r difrod a achoswyd gan y llifogydd, na welwyd ei fath o'r blaen, wedi effeithio'n sylweddol ar fywydau llawer o'n preswylwyr a'n busnesau.

Mae mesuryddion lefel afon yn dangos bod pob un o'n hafonydd wedi cyrraedd y lefelau uchaf a gofnodwyd, gydag Afon Taf yn torri record 40 mlynedd wrth gyrraedd 52m, ac, ar ben hynny, cafodd y ffosydd eu gorlenwi a methodd y gorsafoedd pwmpio. Ar ben hyn, profodd rhai cymunedau yn rhannau mwyaf gogleddol y sir werth mis o law mewn dim ond 24 awr.

Mae staff y Cyngor, sydd wedi'u gorymestyn, contractwyr, gwasanaethau brys, cymunedau a gwirfoddolwyr, a sefydliadau eraill wedi gweithio'n ddiflino ers y penwythnos er mwyn ymateb i'r llifogydd a'r gwaith glanhau dilynol. Er nad yw maint llawn y difrod wedi'i gadarnhau eto, mae'n amlwg y bydd angen symiau sylweddol o arian i atgyweirio'r difrod i gartrefi, busnesau, adeiladau'r Cyngor ac isadeiledd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd rhwng £5 miliwn a £10 miliwn ar gael i gefnogi preswylwyr a busnesau sydd wedi dioddef llifogydd mewnol, ac mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu ei Gronfa Caledi Storm Dennis ei hun - gan ddangos ymrwymiad clir i gefnogi preswylwyr a busnesau ledled y Sir a thu hwnt.

Er gwaethaf hyn, mae'r diffyg cefnogaeth gan Lywodraeth y DU yn amlwg, ac mae hyn eisoes wedi'i gondemnio'n gyhoeddus gan lawer o bobl. Ni chafodd unrhyw gyfarfod COBRA ei alw er gwaethaf y llifogydd a'r difrod eang a welwyd ledled Cymru a rhannau helaeth o Loegr yn dilyn dau benwythnos o dywydd garw yn olynol.

Felly, mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Diystyriad Llywodraeth y DU o gymunedau ledled Cymru a Lloegr yn dilyn rhywfaint o'r tywydd gwaethaf yn hanes diweddar.

- Diffyg cefnogaeth o unrhyw fath gan Lywodraeth y DU i helpu cymunedau, busnesau, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru wrth ymateb i'r llifogydd.

- Ymrwymiad staff y Cyngor, sydd wedi'u gorymestyn, gwasanaethau brys, cymunedau, gwirfoddolwyr, contractwyr, sefydliadau partner ac awdurdodau cyfagos i ddarparu cymorth a chefnogaeth i'r rheiny a gafodd eu heffeithio.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn pa gymorth y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei gynnig ar gyfer y gwaith adfer ac atgyweirio sydd ar y gweill.